

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnofion cyfarfod misol y Cyngor - Nos Fawrth y 12ed o Fai 2015.

- 1. Presennol:** OP Huws (Cadair), Hefina MW Roberts - Llanllyfni; Iwan Lloyd Williams, Barry Bracegirdle, Justin Davies, Dyfed Edwards (Cyghorydd Sir) - Penygroes; Harry Wyn Owen, D Martin Williams, Sharon Wynne Jones - Talysarn; Eurig Wyn Evans - Nebo; Craig ab Iago - Cynghorydd Sir.
Ymddiheuriadau: Ffion Jones - Nantlle.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.**
- 3. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Ebrill.** Ffion Jones yn bresennol yng nghyfarfod mis Ebrill. Harry Wyn Owen yn datgan cywirdeb y cofnodion, a Hefina Roberts yn eilio.
- 4. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Is-grwp baw cwn - dim i'w adrodd hyd yma. Tyllau wedi eu cau yn Bont Crychddwr, Llanllyfni.
- 5. Adrodd yn ol o unrhyw gyfarfod is-bwyllgor – pwyllgor is-bwyllgor mynwentydd.** Cynhaliwyd cyfarfod safle ar y 21ain o Ebrill. Cadarnhawyd y byddai'r rhes gladdu bresennol yn gorffen ar H119, ac y byddai H120 a H121 yn plotiau llwch. Y rhes nesaf i gychwyn efo H122 gyferbyn a bedd Khan, ac yn cario ymlaen hyd at H133 (diwedd y rhes). Roedd y pwyllgor yn rhagweld bod 16 lle claddu ar ol yn plot H. Rhagweld y bydd angen symud i'r plot nesaf (yn y rhan isaf) tua dechrau 2016 - rhes o llwch wrth y wal, a rhes llawn wedyn. Penderfynwyd yn yr is-bwyllgor gofyn wrth y pwyllgor llawn am braesept fychan i wneud man waith yn y mynwentydd. Penderfynwyd cynnal cyfarfod gydag Arwel Jones Griffith ddechrau mis Mehefin i drafod y brosiect - Arwel wedi cyflawni yr hyn a oedd yn y contract. Pris wedi ei dderbyn am wneud gwaith i lenwi tyllau yn MacPelah - £500 - derbyn (ILIW, HWO). Gofyn i'r contractwyr ysgubo cerrig man oddi ar y llwybr yn MacPelah - caniatu; Derbyniwyd pris i dorri coed celyn yn St Rhedyw - £480 - derbyn (ILIW, HWO). Derbyniwyd pris i wenwyno yn St Rhedyw - £120 - derbyn (HWO, ILIW).
Craig a Dyfed yn gadael y cyfarfod.
- 6. Cynllunio Diweddariad Cyngor Gwynedd – Cais Bryn Melyn, Nebo.** Derbyniwyd cais cynllunio wedi ei ddiwygio - Eurig i gysylltu efo'r Clerc efo unrhyw sylwadau. Iwan yn datgan ei fod am geisio cysylltu efo cwmi'r chwarel dywod ym Mhenygroes i ofyn wrthynt ddod i gyfarfod efo'r Cyngor Cymuned.
- 7. Gohebiaeth.**
Cyngor Gwynedd
*Ymatebion i gwynion / ymholiadau – arwydd arafu Nantlle - Cyngor Gwynedd yn edrych ar y cais; Twll ger 55 Trem yr Wyddfa - wedi ei lenwi; Cerrig yn gilfan Gelli Ffrydiau - wedi eu symud; Ailgylchu - Cyngor Gwynedd yn cadw llygar ar y sefyllfa, ac wedi cael gair efo'r gweithwyr.
*Bagiau baw cwn/datblygiadau ymgyrch - y Clerc wedi casglu llond bocs o fagiâu i'w rhannu.
Arall
*Valrie Jennings, Wardell Armstrong LLP – gwahoddiad i gyfarfod Talysarn 14.5.15. Hysbyswyd y Cynghorwyr o'r gwahoddiad.
*Un Llais – Rhaglen Cymru'n Cofio 2015. Y Clerc i holi CADW am unrhyw grantiau i symud cofebion rhyfel.
*Un Llais – Cod ymddygiad – materion gweithlu. Er gwybodaeth.
*Un Llais – Ymateb i'r Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol : Grym i Bobl Leol.
*Un Llais – Ceisiadau grant i ddiogelu cofebion rhyfel.
*Un Llais – Cynllunio Cadarnhaol : Bil Cynllunio Cymru.
*Erthygl – Possible Assets Transfer
*Cyngh Dilwyn Lloyd – cofeb Talysarn. Martin am drio codi pwyllgor yn y pentref.
*Cylchgrawn Y Llais.
*Cylchgrawn Clerks and Councils Direct.
*The Clerk.
- 8. Gwefan.** Anfon newyddion ymlaen i'w roi ar y wefan yn syth ar ol cyfarfodydd y Cyngor.
- 9. Goleuadau Nadolig.** Penderfynwyd prynu goleuadau Nadolig newydd (£1000 i £1500).
- 10. Parcio Llanllyfni:** diweddariad. OP Huws am gysylltu efo'r Charity Commission a'r Fields in Trust cyn cynnal cyfarfod yn y pentref, ac am edrych ymhellach i fewn i gyfrifoldebau am y cae. **Iwan yn gadael y cyfarfod.**

11. **Materion Pentrefi.** Talysarn Tarmac ar y ffordd yn Bro Silyn yn lwmpyn hegr i gerbydau (Ff J); Bin Ffordd yr Orsaf yn parhau heb ei dynnu oddi yno, ac yn llawn o ddwr drewllyd; Waliau cerrig o Pont Coed Madog i Bro Silyn yn disgyn - cysylltu efo'r adran briffyrdd; llwybr heifio'r cae pel droed - clai wedi ei roi yn lle'r arwyneb llechi, a ddim yn fuddiol - y tim pel droed / parcio - budr. Cysylltu efo Dilwyn Lloyd a Cyngor Gwynedd. Penygroes Map busnesau lleol - gwneuthuriad polycarbonate yn £400, plastic ar alwminiwm yn £150 - Justin yn edrych i mewn i'r posibiladau; Cwynion am y post yn cau.

12. **Llwybrau a Mynwentydd.** TENDR MYNWENTYDD -Cynllun MacPelah - adroddwyd yn ol o'r cyfarfod is-bwyllgor. Cyfarfod pellach i'w drefnu ddechrau Mehefin; Taliad llwybrau wedi ei dderbyn; Angen arwydd 'Gwastraff Gwyrdd yn Unig - Ewach a'ch Ysbwriel Adref Efo Chi' yn y gorlan yn Gorphwysfa; Symud ymlaen efo'r gwaith tarmacio yn Gorphwysfa.

13. **Materion yn ymwed a'r heddlu.** Angen eu gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol agos. Trafod problemau parcio, paratoi cwestiynnau o flaen llaw.

14. **Materion ariannol.**

***Taenlen i'w chymeradwyo.**

***Biliau i'w talu** – A Johnson ffon/rhyngwrdd £25; A Johnson – derbynebau £147.74.

***Ceisiadau am Arian CCTV** Penygroes - Cynnig cyfrannu i fyny at £1000 (HWO/BB) ar ol dangos bod y pwyllgor wedi codi o leiaf £1000 arall eu hunain tuag at y £2000 sydd ei angen arnynt i uwchraddio'r system CCTV.